12

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed IONAWR 2022

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 21ain RHAGFYR 2021 YN GYWIR.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng W R Parry, E D Owen, E W Roberts, E Williams.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Ni chymerodd Cyng J E Lewis unrhyw rhan yn cais Maes Meillion, Bodffordd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU.
2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   FW: Datganiad Ynys Mon yn penodi ei Brif Weithredwr Newydd.
   Dylan Williams a benodwyd yn y Cyngor llawn 21.12.21, yn olynu Annwen Morgan sydd yn ymddeol ym Mis Mawrth 2022.
   Yn frodor o`r Ynys ymunodd gyda`r Cyngor yn 1996. Cyn derbyn y rol o Ddirprwy Brif Weithredwr ym Mis Hydref 2019. Penodiad mewnol.
   Y Cyngor yn dymuno y gorau i Mrs Annwen Morgan yn ei ymddeoliad.

4. Swyddfa Rhaglen Ynys Ynni.
   Ffermydd Solar Llanbabo a Llechcynfarwy.
   Cwmni Boom Power wedi danfon pamffled dros gyfnod y Nadolig i drigolion perthnasol yr Ynys ynghylch ei dwy Fferm Solar Arfaethedig. Dwy sesiwn ymgynghori cyhoeddus.
   Llanbabo 11.1.22. Llechcynfarwy 13.1.22. Yr amser yn fyr (Gwybodaeth 6.1.22)
   Sylw i Gynghorau Tref Alaw, Llanerchymedd a Bodffordd.
   Ychydig o`r tir mewn golwg yn Ward Llandrygarn.
   Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymdeithas. Effallai bydd ennill ariannol mewn bodolaeth.

5. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
   FW: Datganiad: Cadwch lygad am frindiau a pherthnasau bregus.
   Cyngor Mon y gofyn i`w drigolion gadw llygad am eu Cymdogion a`u perthnasau wrth i`r Parademig barhau.

Y Cyngor Cymdeithas yn wybodol ac yn derbyn.

6. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
FW: Datganiad i`r Wasg: Mwy o Dai Cyngor newydd o ansawdd ar y ffordd.
Cyngor Mon wedi croesawu Tenantiaid Lleol i`w Ystad Dai Newydd yn Rhosybol ac mae mwy o brosiectau ar y gweill.
Nifer o ddatblygiadau Taqi o ansawdd eraill ar y gweill yng Nghaergybi, Amlwch a Llanfachraeth; gyda phrosiectau adeiladu newydd wedi`u clustnodi i ddechrau yn Niwbwrch, Biwmares a Chaergybi flwyddyn nesaf.
Derbyn y wybodaeth. Newyddion da i`r Ynys.

7. Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau. Ella C Jones.
Praeseptau Cynghorau Cymuned. Band D 426.13. 2022/23.
Y Clerc ddim yn gweld bydd angen mwy o gynnydd eleni bydd ddim llawer o newidiadau. Os bydd etholiad ym mis Mai mae digon wrth gefn. Nid oes angen i wneud dim yn y Cae Chwarae. Gyda balans o gwmpas £9,000 i £10,000 (Dim yn cynnwys arian y Fynwent Gymunedol) ar ddiwedd y flwyddyn Mawrth 2021/22. Bydd angen talu yr Archwiliad Allanol. Cadw y Praesept fel ac y mae £11,000 y flwyddyn.
Cynnig R M Roberts, eilio Cyng J Evans.

GOHEBIAETH (ARALL)

8. Comisiwn Ffiniau.
Gwrandawiadau Cyhoeddus.
Yn sgil yr heriau iechyd cyhoeddus sy`n deillio o`r amrywiad Omicron, mae`r Comisiwn wedi penderfynu gohirio dechrau`r ail gyfnod ymgynghori a`r gwrandawiadau cyhoeddus.
Ail gyfnod ymgynghori yn agor 17eg Chwefror ac yn cau 30ain Mawrth 2022.
Derbyn. Dim mwy i ymhelaethu.

9. Llywodraeth Cymru.
Swm Priodol o dan adran 137(4)(A) o ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
Gwariant Adran 137 y terfyn ar gyfer 2020-23.
£8.82 yw`r swm priodol ar gyfer y flwyddyn ariannol i Gynghorau Cymuned.
Cynyddu o £8.41 i £8.82 am bob etholwr.
Derbyn. Dim yn effeithio ar ein Cyngor nid oes menthyciad.

10. Valley Wings. Cylchgrawn. Llu Awyr Frenhinol Valley. Derbyn.

RHODDION

11. Dim.

PLWYFOL.

12. Torri Glaswellt Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Dim ond un cais oedd yn hollol ymroddedig o`r dechrau sef Nigel Williams Bodedern.
Mae yn fodlon torri a clirio y glaswellt, (bwriad cadw y glaswellt yn gwta) Dim yn codi tal fesyl torriad. Clirio unrhyw dyfiant gwyllt ar y waliau (Eiddew) Cadw y man parcio yn daclys. Tocio y coed sydd yn aros. A defnyddio chwyn laddwr os bydd angen.
Am y gost o £850.00 y tymor.
Mae y glaswellt yn tyfu yn wyllt rwan oherwydd y tywydd mwyn ac mae angen symud.
Penderfynwyd dderbyn yr amcangyfrif o £850.00.
Cynnig Cyng J Evans, eilio Cyng D T Roberts. Nid oedd gwrthwynebiad.

13. Llwybr Cae`r Delyn i`r B5109. Dylan E Hughes.
Mwsog ar y llwybr yn berygus i rhywun lithro. (Rhywun wedi anafu ei benglin)
O`r diwedd a`r o`l ebost a lluniau gan Cyng E Williams, a thri ebost gan y Clerc a Cyng E W Roberts wedi cwyno. Mae canlyniad, cafwyd ateb:-
Ychydig o fwsog ar yr ochrau ond ar y cyfan mae`r llwybr mewn cyflwr da iawn.
Ond am fod y llwybr yn codi gofid i drigolion bydd y Cyngor Sir yn trefnu fod jetter yn mynychu y safle i rhoi `pressure washer` ar y safle.
Derbyn. A diolch i`r Cyngor Sir ei bod wedi gweld y goleuni o`r diwedd.

14. Adolygu Cyflog y Clerc.
Y Cynghorwyr yn gofyn faint fuasai yn swm teg i`w drafod a`i rhoi ar y rhaglen nesaf.
Y Clerc yn ddiolchgar o hyn ond am iddynt ei adael fel ac y mae tan yr Adolygiad nesaf.
Nid oedd Cyng H G Owen wedi cymryd rhan.

15. Nid oes son fod yr Archwiliad Allanol gan y Swyddfa Gymreig wedi ei chwblhau.

MATERION ARIANNOL:
16. Cyfrif Rhedegol £12,846.66 (Praesept 3. £3,666.66)

17. Mynwent Gymunedol £5,890.00.

TALIADAU:
18 Clerc £250.00. Pwyllgor Cae Chwarae £2,000.00.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.